NUT FREE, ALLERGIES AND ALLERGIC REACTIONS POLICY

At Wibli Wobli Nursery, we recognise that allergies can cause reactions ranging from mild symptoms to life-threatening anaphylaxis. We aim to minimise the risk of allergic reactions by identifying children's needs, preventing exposure to known allergens wherever reasonably possible, and ensuring staff know how to respond to an allergic reaction.

We work in partnership with parents and carers, the nursery cook and healthcare professionals where appropriate to ensure children's allergies are managed safely.

Food Provision and Nut-Free Policy

To protect children, staff and visitors with allergies, **no food may be brought into or consumed on nursery premises unless it has been prepared or cooked on site by the nursery**. This includes packed lunches, snacks, treats and food brought in by parents, carers, staff or visitors. Exceptions may be agreed in advance by management where required to meet an identified medical or dietary need.
All meals and snacks are provided by the nursery and prepared on site in accordance with food hygiene procedures, allergy risk assessments and individual dietary requirements. For funded children, meals and snacks are included in our consumables charge.

Wibli Wobli Nursery operates a **strict nut-free policy**. Nuts and food products containing nuts must not be brought onto or consumed on the premises, including indoor and outdoor areas. This applies to children, parents, carers, staff and visitors.

The nursery will:

- Ensure nuts are not used as ingredients in meals, snacks or cooking activities.
- Check ingredient labels and allergen information before products are used.
- Assess precautionary warnings such as “may contain nuts” and avoid products where the risk is unacceptable.
- Inform parents and carers of the policy and make it available on request and through the nursery website.
- Remove any food containing nuts safely and ensure it is not served or consumed.

Although these precautions reduce risk, we recognise that it is not possible to guarantee a completely allergen-free environment.

Identifying and Managing Allergies

Parents and carers must provide details of known allergies, previous reactions, prescribed medication and relevant medical advice on registration forms. They must inform the nursery promptly of any new allergy, reaction or change in treatment via email to the office for management to ensure correct action is taken.

Allergy information will be recorded on the child's Famly profile and shared with relevant staff, including the nursery cook. Allergy charts will be displayed in appropriate staff areas, such as the kitchen and dining areas, to support safe food preparation and service. Children's medical information must be handled confidentially.
Before a child with a known allergy starts, the nursery manager will work with the parent or carer to complete an individual Allergy Risk Assessment. Where appropriate, a healthcare professional's allergy management or emergency plan will also be obtained or reviewed.
The assessment will identify the allergen, possible symptoms, prevention measures, dietary requirements, prescribed medication and emergency procedures. Relevant staff must understand the child's needs before caring for them. Assessments will be reviewed regularly and whenever circumstances or medical advice change.

Food Preparation and Prevention

The nursery cook and staff must follow each child's Allergy Risk Assessment and take appropriate precautions to prevent exposure and cross-contamination.

These include:

- Checking ingredient lists and allergen information.
- Washing hands and cleaning preparation surfaces, utensils and equipment before use.
- Preparing allergy-specific meals separately using suitable clean equipment.
- Keeping allergy-specific food separate and clearly identified.
- Using appropriate plates, bowls and serving utensils to help identify the correct meal.
- Cleaning dining tables between sittings and supervising children to prevent food sharing.

Where appropriate, allergy-specific placemats or red-coloured plates may be used. During self-service, staff must supervise children closely and ensure food trays and serving utensils are not shared in a way that could cause cross-contamination.
Staff must also consider environmental allergens, including plants and insect stings, during outdoor play, outings and other activities. Children should be encouraged, where age-appropriate, not to share food and to tell an adult if they feel unwell.

Staff Responsibilities

All staff must understand this policy, know which children have allergies, recognise potential reactions and know where relevant allergy information and prescribed emergency medication are kept.
The nursery manager will ensure that staff receive appropriate information and training, including instruction in individual emergency plans and the use of prescribed adrenaline auto-injectors where required. Emergency medication must be accessible when needed and checked in accordance with nursery procedures.

Staff must remain alert to allergy risks throughout the nursery day and ensure suitable supervision and staff cover are maintained.

Recognising and Responding to Allergic Reactions

Possible symptoms include itching, rashes, hives, swelling, watery eyes, a runny nose, nausea, stomach pain, vomiting or diarrhoea.

Signs of a potentially severe reaction (anaphylaxis) include:

- Swelling of the tongue or throat.
- Difficulty breathing or swallowing, wheezing or persistent coughing.
- A sudden change in voice or difficulty speaking.
- Dizziness, collapse, loss of consciousness or rapid deterioration.

Anaphylaxis can develop quickly and may occur without a skin rash.

Mild Reaction

Staff must stop exposure to the suspected allergen where safe, follow the child's care plan, seek appropriate medical advice, monitor the child closely, inform the parent or carer and notify the nursery manager. If symptoms worsen, staff must follow the emergency procedure immediately.

Severe Reaction or Suspected Anaphylaxis

Staff must:

1. **Call 999 immediately.**
2. Administer the child's prescribed adrenaline auto-injector promptly in accordance with their emergency plan and staff training. Do not delay while waiting for a parent or ambulance.
3. Follow the emergency operator's instructions and keep the child under continuous observation. Do not allow the child to stand or walk; help them lie flat unless breathing difficulties require them to sit up with their legs extended.
4. If symptoms persist, administer a second prescribed auto-injector after five minutes if available, following emergency guidance and the child's care plan.
5. If the child becomes unresponsive and is not breathing normally, begin CPR and follow the emergency operator's instructions.
6. Inform the nursery manager and contact the parent or carer as soon as emergency assistance has been arranged.

A seriously unwell child must not be transported to hospital in a staff member's private vehicle. The nursery will arrange appropriate staff cover to maintain safe supervision of the remaining children and provide reassurance to any children who witness the incident.

General first-aid and hospital arrangements are covered in the nursery's Accident and First Aid Policy.

Recording and Follow-Up

All allergic reactions, suspected allergen exposure, medication administration and breaches of the nut-free policy must be reported to the nursery manager.
Incidents must be recorded in accordance with the Accident and Incident Policy, including the circumstances, symptoms, treatment, medication administered, people contacted and any follow-up action required.
Following a significant reaction or suspected exposure, management will review the child's Allergy Risk Assessment and care plan with the parent or carer and seek updated medical guidance where appropriate.
Any failure in food preparation, supervision or allergen controls will be reviewed to identify learning and prevent recurrence.

This policy was adopted on	Signed on behalf of the nursery	Date for review
13/10/26	*L.George*	*10/2027*

POLISI DI-GNÔN, ALERGEDDAU AC ADWEITHIAU ALERGAIDD

Yn Meithrinfa Wibli Wobli, rydym yn cydnabod y gall alergeddau achosi adweithiau sy'n amrywio o symptomau ysgafn i anaffylacsis sy'n gallu peryglu bywyd. Ein nod yw lleihau'r risg o adweithiau alergaidd drwy nodi anghenion y plant, atal cyswllt ag alergenau hysbys lle bynnag y bo'n rhesymol bosibl, a sicrhau bod y staff yn gwybod sut i ymateb i adwaith alergaidd.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr, cogydd y feithrinfa a gweithwyr iechyd proffesiynol, lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod alergeddau'r plant yn cael eu rheoli'n ddiogel.

Darparu Bwyd a Pholisi Di-gnôn

Er mwyn diogelu plant, staff ac ymwelwyr sydd ag alergeddau, **ni chaniateir dod ag unrhyw fwyd i safle'r feithrinfa na'i fwyta yno oni bai ei fod wedi'i baratoi neu ei goginio ar y safle gan y feithrinfa**. Mae hyn yn cynnwys pecynnau cinio, byrbrydau, danteithion ac unrhyw fwyd a ddygir i'r feithrinfa gan rieni, gofalwyr, staff neu ymwelwyr. Gall y rheolwyr gytuno ymlaen llaw i eithriadau lle bo angen er mwyn diwallu angen meddygol neu ddeietegol penodol.

Darperir holl brydau bwyd a byrbrydau'r plant gan y feithrinfa, a chânt eu paratoi ar y safle yn unol â gweithdrefnau hylendid bwyd, asesiadau risg alergeddau ac anghenion deietegol unigol. Ar gyfer plant sy'n derbyn cyllid, mae prydau bwyd a byrbrydau wedi'u cynnwys yn ein tâl nwyddau traul.

Mae Meithrinfa Wibli Wobli yn gweithredu **polisi di-gnôn llym**. Ni chaniateir dod â chnau na chynhyrchion bwyd sy'n cynnwys cnau i safle'r feithrinfa na'u bwyta yno. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored, ac i blant, rhieni, gofalwyr, staff ac ymwelwyr.

Bydd y feithrinfa yn:

- Sicrhau na ddefnyddir cnau fel cynhwysion mewn prydau bwyd, byrbrydau na gweithgareddau coginio.
- Gwirio labeli cynhwysion a gwybodaeth am alergenau cyn defnyddio cynhyrchion.
- Asesu rhybuddion rhagofalus, megis "gall gynnwys cnau", ac osgoi defnyddio cynhyrchion lle mae'r risg yn annerbyniol.
- Hysbysu rhieni a gofalwyr am y polisi a sicrhau ei fod ar gael ar gais ac ar wefan y feithrinfa.
- Symud unrhyw fwyd sy'n cynnwys cnau o'r ardal yn ddiogel a sicrhau na chaiff ei weini na'i fwyta.

Er bod y rhagofalon hyn yn lleihau'r risg, rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl gwarantu amgylchedd sy'n gwbl rydd o alergenau.

Nodi a Rheoli Alergeddau

Rhaid i rieni a gofalwyr ddarparu manylion am unrhyw alergeddau hysbys, adweithiau blaenorol, meddyginiaethau ar bresgripsiwn a chyngor meddygol perthnasol ar y ffurflenni cofrestru. Rhaid iddynt roi

gwybod i'r feithrinfa yn brydlon am unrhyw alergedd newydd, adwaith alergaidd neu newid mewn triniaeth, drwy anfon e-bost at y swyddfa fel y gall y rheolwyr sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd.

Bydd gwybodaeth am alergeddau yn cael ei chofnodi ar broffil y plentyn ar ap Famly a'i rhannu â'r staff perthnasol, gan gynnwys cogydd y feithrinfa. Bydd siartiau alergedd yn cael eu harddangos mewn ardaloedd staff priodol, megis y gegin a'r ardaloedd bwyta, er mwyn helpu i sicrhau bod bwyd yn cael ei baratoi a'i weini'n ddiogel. Rhaid trin gwybodaeth feddygol y plant yn gyfrinachol.

Cyn i blentyn ag alergedd hysbys ddechrau yn y feithrinfa, bydd rheolwr y feithrinfa yn gweithio gyda'r rhiant neu'r gofalwr i gwblhau Asesiad Risg Alergedd unigol. Lle bo'n briodol, bydd cynllun rheoli alergeddau neu gynllun triniaeth frys gan weithiwr iechyd proffesiynol hefyd yn cael ei ddarparu neu ei adolygu.

Bydd yr asesiad yn nodi'r alergen, y symptomau posibl, y mesurau atal, yr anghenion deietegol, y feddyginiaeth ar bresgripsiwn a'r gweithdrefnau brys. Rhaid i'r staff perthnasol ddeall anghenion y plentyn cyn gofalu amdano. Bydd yr asesiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y bydd amgylchiadau neu gyngor meddygol yn newid.

Paratoi Bwyd ac Atal Trawshalogi

Rhaid i gogydd y feithrinfa a'r staff ddilyn Asesiad Risg Alergedd pob plentyn a chymryd rhagofalon priodol i atal cyswllt ag alergenau a thrawshalogi.

Mae'r rhagofalon hyn yn cynnwys:

- Gwirio rhestrau cynhwysion a gwybodaeth am alergenau.
- Golchi dwylo a glanhau arwynebau paratoi, offer ac offer coginio cyn eu defnyddio.
- Paratoi prydau bwyd ar gyfer plant ag alergeddau ar wahân, gan ddefnyddio offer glân addas.
- Cadw bwyd ar gyfer plant ag alergeddau ar wahân a'i labelu'n glir.
- Defnyddio platiau, powlenni ac offer gweini addas i helpu i adnabod y pryd cywir.
- Glanhau byrddau'r ardal fwyta rhwng sesiynau bwyd a goruchwylio'r plant er mwyn atal rhannu bwyd.

Lle bo'n briodol, gellir defnyddio matiau bwrdd sy'n dangos llun y plentyn neu blatiau o liw coch i helpu i adnabod y pryd cywir.
Yn ystod hunanwasanaeth, rhaid i'r staff oruchwylio'r plant yn agos a sicrhau nad yw hambyrddau bwyd nac offer gweini'n cael eu rhannu mewn ffordd a allai achosi trawshalogi.
Rhaid i'r staff hefyd ystyried alergenau yn yr amgylchedd, gan gynnwys planhigion a phigiadau pryfed, yn ystod chwarae yn yr awyr agored, teithiau a gweithgareddau eraill. Dylid annog y plant, yn unol â'u hoedran a'u dealltwriaeth, i beidio â rhannu bwyd ac i ddweud wrth oedolyn os ydynt yn teimlo'n sâl.

Cyfrifoldebau'r Staff

Rhaid i'r holl staff ddeall y polisi hwn, gwybod pa blant sydd ag alergeddau, adnabod arwyddion posibl adwaith alergaidd a gwybod ble mae'r wybodaeth berthnasol am alergeddau a'r feddyginiaeth frys ar bresgripsiwn yn cael eu cadw.
Bydd rheolwr y feithrinfa yn sicrhau bod y staff yn cael gwybodaeth a hyfforddiant priodol, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar gynlluniau triniaeth frys unigol a'r defnydd o ddyfeisiau awto-chwistrellu adrenalin ar bresgripsiwn, lle bo angen. Rhaid sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaeth frys pan fo'i hangen, a'i gwirio yn unol â gweithdrefnau'r feithrinfa.
Rhaid i'r staff fod yn wyliadwrus o risgiau alergedd drwy gydol y dydd a sicrhau bod goruchwyliaeth briodol a digon o staff ar gael bob amser.

Adnabod ac Ymateb i Adweithiau Alergaidd

Gall symptomau posibl gynnwys cosi, brech, cychod gwenyn, chwyddo, llygaid dyfrllyd, trwyn yn rhedeg, cyfog, poen yn y stumog, chwydu neu ddolur rhydd.

Mae arwyddion adwaith alergaidd difrifol posibl (anaffylacsis) yn cynnwys:

- Chwyddo'r tafod neu'r gwddf.
- Anhawster anadlu neu lyncu, gwichian neu beswch parhaus.
- Newid sydyn yn y llais neu anhawster siarad.
- Pendro, llewygu, colli ymwybyddiaeth neu ddirywiad cyflym yng nghyflwr y plentyn.

Gall anaffylacsis ddatblygu'n gyflym a gall ddigwydd heb frech ar y croen.

Adwaith Ysgafn

Rhaid i'r staff atal cyswllt â'r alergen a amheuir, lle bo'n ddiogel gwneud hynny, dilyn cynllun gofal y plentyn, ceisio cyngor meddygol priodol, monitro'r plentyn yn agos, hysbysu'r rhiant neu'r gofalwr a rhoi gwybod i reolwr y feithrinfa. Os bydd y symptomau'n gwaethygu, rhaid dilyn y weithdrefn frys ar unwaith.

Adwaith Difrifol neu Anaffylacsis a Amheuir

Rhaid i'r staff:

1. **Ffonio 999 ar unwaith.**
2. Rhoi dyfais awto-chwistrellu adrenalin y plentyn ar bresgripsiwn yn brydlon, yn unol â'i gynllun triniaeth frys a hyfforddiant y staff. Peidio ag oedi wrth aros am riant neu ambiwlans.
3. Dilyn cyfarwyddiadau'r gweithredwr brys a chadw'r plentyn dan oruchwyliaeth barhaus. Peidio â gadael i'r plentyn sefyll na cherdded; ei helpu i orwedd yn wastad a chodi ei goesau os yw'n bosibl, oni bai bod anhawster anadlu yn golygu bod angen iddo eistedd gyda'i goesau wedi'u hymestyn.
4. Os bydd y symptomau'n parhau, rhoi ail ddyfais awto-chwistrellu adrenalin ar bresgripsiwn ar ôl pum munud, os oes un ar gael, yn unol â chanllawiau brys a chynllun gofal y plentyn.
5. Os bydd y plentyn yn anymwybodol ac nad yw'n anadlu'n normal, dechrau dadebru cardio-anadlol (CPR) a dilyn cyfarwyddiadau'r gweithredwr brys.

6. Hysbysu rheolwr y feithrinfa a chysylltu â'r rhiant neu'r gofalwr cyn gynted ag y bydd cymorth brys wedi'i drefnu.

Ni ddylid cludo plentyn sy'n ddifrifol wael i'r ysbyty mewn car preifat aelod o staff. Bydd y feithrinfa'n trefnu bod digon o staff ar gael i oruchwylio'r plant eraill yn ddiogel ac yn rhoi sicrwydd i unrhyw blant sydd wedi gweld y digwyddiad.

Mae trefniadau cymorth cyntaf cyffredinol a chludo plant i'r ysbyty wedi'u cynnwys ym Mholisi Damweiniau a Chymorth Cyntaf y feithrinfa.

Cofnodi a Chamau Dilynol

Rhaid rhoi gwybod i reolwr y feithrinfa am bob adwaith alergaidd, amheuaeth o gyswllt ag alergen, achos o roi meddyginiaeth a thorri'r polisi di-gnôn.
Rhaid cofnodi digwyddiadau yn unol â Pholisi Damweiniau a Digwyddiadau'r feithrinfa. Dylai'r cofnod gynnwys, lle bo'n berthnasol, amgylchiadau'r digwyddiad, y symptomau, y driniaeth, unrhyw feddyginiaeth a roddwyd, y bobl y cysylltwyd â nhw ac unrhyw gamau dilynol sydd eu hangen.
Yn dilyn adwaith difrifol neu amheuaeth o gyswllt ag alergen, bydd y rheolwyr yn adolygu Asesiad Risg Alergedd a chynllun gofal y plentyn gyda'r rhiant neu'r gofalwr, ac yn ceisio cyngor meddygol wedi'i ddiweddaru lle bo'n briodol.
Bydd unrhyw fethiant posibl wrth baratoi bwyd, goruchwylio neu reoli alergenau yn cael ei adolygu er mwyn nodi gwersi a helpu i atal yr un peth rhag digwydd eto.

Mabwysiadwyd y polisi hwn ar	Llofnodwyd ar ran y feithrinfa	Dyddiad adolygiad nesaf
13/10/2026	*L.George*	*10/2027*